# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Gorchmynion cyflogau amaethyddol*

**4 Gorchmynion cyflogau amaethyddol: pwerau Gweinidogion Cymru**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael gorchymyn cyflogau amaethyddol drafft oddi wrth y Panel—

(a) cymeradwyo a gwneud y gorchymyn, neu

(b) cyfeirio'r gorchymyn yn ôl at y Panel i'w ystyried ymhellach a'i ailgyflwyno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, o'u pen a'u pastwn eu hunain, wneud gorchmynion cyflogau amaethyddol hyd nes bod y Panel wedi ei sefydlu.

(3) Cyn gwneud gorchymyn cyflogau amaethyddol o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau neu'r cyrff hynny sy'n debygol o fod â buddiant yn y gorchymyn yn eu barn hwy.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion cyflogau amaethyddol gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth—

(a) ynghylch ffurf a chynnwys gorchymyn, a

(b) ynghylch y weithdrefn i'w dilyn a'r ymgynghori i'w gynnal mewn perthynas â gorchymyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 4.